**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddEquality@senedd.cymru

13 Ebrill 2022

Anwyl Jenny,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth.

Rwy'n croesawu'r adroddiadau monitro a gynhyrchir gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu i ddinasyddion yr UE ledled Cymru. Mae'n hanfodol bod dinasyddion yr UE a'r gymuned ehangach yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol o ran ceisiadau a hefyd y cymorth sydd ar gael, er mwyn inni i gyd allu cydweithio i wneud yn siŵr bod dinasyddion yr UE yn cael y cyfle gorau posibl i sicrhau eu statws, ac yn bwysicach na hynny, eu dyfodol yma yng Nghymru.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu adroddiadau a chyhoeddiadau sy'n ymwneud â'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn rheolaidd, a byddant yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau bod y cymorth yn briodol ar gyfer diwallu anghenion. Efallai eich bod yn gwybod eisoes am gyhoeddiad diweddar gan y *Migration Observatory* 'How Secure is Pre-Settled Status for EU Citizens After Brexit? - Migration Observatory - The Migration Observatory (ox.ac.uk)'. Bydd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cyhoeddiad hwn yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn sicrhau bod y cymorth a roddir i'r deiliaid statws preswylydd cyn-sefydlog, sy'n awyddus i newid i statws preswylydd sefydlog, yn parhau'n addas ar gyfer diwallu anghenion yr unigolion hynny, ac ar gyfer diwallu anghenion dinasyddion agored i niwed yn enwedig.

O ran eich pryderon ynglŷn ag ymestyn y Cynllun Trwyddedau Teulu ar gyfer Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, gallaf gadarnhau bod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y DU ar 28 Chwefror ynghylch y mater hwn, ac y cafwyd ymateb

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gan yr Ysgrifennydd Cartref ar 4 Mawrth 2022. Roedd yr ymateb yn nodi bod y rhesymau rhesymol dros ddychwelyd yn hwyr i'r DU yn rhan o ganllawiau'r Cynllun Trwyddedau Teulu ar gyfer Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ac y byddai amgylchiadau aelodau o deuluoedd o Wcráin yn cael eu hystyried yn rhesymau rhesymol dros gais hwyr, ond hyd yn hyn nid yw estyniad wedi ei roi ar gyfer y llwybr hwn.

Yn gynnar yn yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin, fe gysylltodd Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU i ofyn iddi gryfhau'r dull gweithredu dyngarol. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud y consesiynau fisas ar gyfer y Cynllun Teuluoedd o Wcráin a'r cynllun Cartrefi i Wcráin yn fwy hyblyg, gan neilltuo mwy o adnoddau ar gyfer ymateb i lefel y ceisiadau fisa sy'n cyrraedd gan ddinasyddion o Wcráin.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer dinasyddion o Wcráin ar lefel darpariaeth uwch-noddwyr o dan y cynllun Cartrefi i Wcráin, a bydd yn parhau i fonitro pa mor ymarferol yw'r llwybrau ar gyfer dod i'r DU, fel y bo'r angen.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice